

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

27/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

08/03/2023

Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Cyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Cyflwyno
Protocol Treth Gyngor Cymru: Adroddiad Terfynol

Awduron: Zoe Charlesworth, Policy in Practice; Alex Clegg, Policy
in Practice; Adam Knight-Markiegi, MEL Research.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Charlesworth, Z; Clegg, A; Knight-Markiegi, A (2023).
Deall Effaith Ymyriadau Treth Gyngor yng Nghymru: Cyflwyno Protocol Treth Gyngor
Cymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y
Llywodraeth 27/2023
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/deall-ffaith-ymyriadau-treth-gyngor-yng-nghymru-cyflwyno-protocol-treth-gyngor-cymru>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn
Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Cydnabyddiaeth

Hoffai Policy in Practice ddiolch i'r canlynol:

Yr holl gynghorau yng Nghymru a'r sefydliadau trydydd parti a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn. Ni fyddai'r gwaith ymchwil hwn wedi bod yn bosibl heb y cyfranogiad hwn.

Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru a roddodd adborth hynod werthfawr ar wahanol gamau o'r gwaith ymchwil hwn.

Izabel Bahia, Tylor-Maria Johnson a Janet Harkin o Policy in Practice am y gwaith dadansoddi data, hysbysu am bolisïau a phrawfddarllen.

Bla translation (<https://bla-translation.co.uk/>) am eu gwaith ardderchog wrth gyfieithu'r adroddiad i'r Gymraeg.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	6
2.	Cefndir.....	8
3.	Dull	12
4.	Methodoleg	13
	Gwerthusiad sylfaenol o weithrediad Protocol Treth Gyngor Cymru	13
	Dadansoddiad ystadegol o'r effaith	14
	Data Arolygon a Chyfweliadau	14
5.	Canfyddiadau: Gweithredu'r Protocol Treth Gyngor	16
	Cyflwyniad	16
	Profiad cynghorau Cymru o weithredu'r Protocol	16
	Barn trydydd partiön ar weithrediad y Protocol.....	20
	Rhwystrau rhag gweithredu'r Protocol Treth Gyngor.....	22
	Tystiolaeth ar wefannau o weithredu'r Protocol Treth Gyngor.....	23
6.	Canfyddiadau: Effaith y Protocol Treth Gyngor	32
	Tystiolaeth o effaith y Protocol Treth Gyngor o waith maes	32
	Tystiolaeth ystadegol o effaith y Protocol Treth Gyngor	33
7.	Crynodeb o'r Canfyddiadau.....	39
8.	Casgliad	41
9.	Argymhellion	43
10.	Atodiadau	44
	Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes.....	44
	Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru - cwestiynau'n ymwneud â'r Protocol Treth Gyngor.....	45

Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1: Ymateb i gwestiwn arolwg ynghylch ymwybyddiaeth o'r Protocol Treth Gyngor ymysg cynghorau yng Nghymru	24
Ffigwr 2: Ymateb i gwestiwn arolwg: "I ba raddau mae gweithgarwch gorfodi a chasglu y cyngor wedi newid o ganlyniad i'r Protocol?	25
Ffigwr 3: Gwefannau cynghorau yng Nghymru sy'n cyfeirio at gymorth gyda dyledion	32
Ffigwr 4: Enghraifft oddi ar wefan cyngor yng Nghymru yn rhestru prosesau gorfodi ar gyfer defnyddwyr sy'n cael trafferth talu eu Treth Gyngor	33
Ffigwr 5: Enghraifft o ddarparu diffiniadau o opsiynau cymorth Treth Gyngor, a gymerwyd oddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych	35
Ffigwr 6: Enghraifft oddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint yn annog ymgysylltu ag aelwydydd sy'n cael trafferth talu eu Treth Gyngor	36
Ffigwr 7: Enghraifft oddi ar wefan Cyngor Caerdydd gyda llwybrau cymorth wedi'u diffinio yn ôl y math o gymorth sydd ei angen	37
Ffigwr 8: Enghraifft oddi ar y dudalen Costau Byw ar wefan Cyngor Abertawe	38
Ffigwr 9: Treth Gyngor a ddilëwyd (pob blwyddyn) gan holl gynghorau Cymru 2017-18 hyd 2021-2022	41
Ffigwr 10: Treth Gyngor a ddilëwyd gan gynghorau yng Nghymru 2017-2018 hyd 2021-2022	42
Ffigwr 11: Treth Gyngor a ddilëwyd fel cyfran o gyfanswm y ddyled Treth Gyngor am y flwyddyn 2021-2022 ar gyfer holl gynghorau Cymru	43
Ffigwr 12: Y berthynas rhwng cyfran y Dreth Gyngor a ddilëwyd a dangosyddion ar wefannau o gydymffurfiaid â'r Protocol	44

Geirfa

Gair allweddol	Diffiniad
Treth Gyngor	Treth leol ar eiddo domestig sy'n cael ei gweinyddu a'i chasglu gan awdurdodau lleol ym Mhrydain. Mae'r tâl yn seiliedig ar amcangyfrif o werth yr eiddo.
Gostyngiad Treth Gyngor	Gostyngiad mewn Treth Gyngor. Mae swm y cymorth yn seiliedig ar incwm yr aelwyd ac wedi'i bennu mewn Cynllun Gostyngiadau Treth Gyngor a ddarperir gan gyngor.
Rhyddhad Treth Gyngor	Term ambarél am y gwahanol fathau o ostyngiad y gellir ei gymhwyso i'r Dreth Gyngor.
Disgownt	Disgownt ar y Dreth Gyngor lawn. Mae hwn yn berthnasol i anheddau penodol lle mae rhai, ond nid y cyfan, o breswylwyr yr annedd wedi eu heithrio rhag talu Treth Gyngor. Gall y gostyngiadau fod yn 25% neu 50% yn dibynnu ar categorïau a nifer y preswylwyr sydd wedi'u heithrio.
Eithrio	Eithrio rhag talu Treth Gyngor. Llywodraeth Cymru sy'n pennu categorïau'r anheddau a'r unigolion y rhoddir eithriad iddynt. Mae Nam Meddyliol Difrifol yn un o'r categorïau sydd wedi'u heithrio (dosbarth U).
S13A	Adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Darpariaeth sy'n caniatáu i gyngor ddileu neu ostwng Treth Gyngor. Mae'n rhaid i gynghorau gael cynllun Adran 13A, ond gwneir penderfyniadau ynghylch dileu neu ostwng yn ôl disgrisiwn y cyngor.
Dileu	Mae dileu Treth Gyngor yn cyfeirio at swm o Dreth Gyngor nad yw'r cyngor yn ystyried ei fod yn ddyledus bellach. Fel arfer, mae hyn yn berthnasol pan fo gostyngiad yn ôl disgrisiwn o dan Adran 13A yn

	cael ei roi neu pan nad yw'n bosib casglu swm mwyach (e.e. marwolaeth).
--	---

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau Treth Gyngor gyda'r amcan o wneud y system Treth Gyngor yn decach ac yn fwy blaengar, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol ar yr un pryd. Mae'r ymrwymadau hyn wedi'u nodi yn y Rhaglen Lywodraethu¹ ac yn y Cytundeb Cydweithio². Hefyd ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i ymgynghori ar fesurau, gan gynnwys ailbrisio a diwygio'r sylfaen drethu. Roedd y datganiad yn nodi bod yr "opsiynau sy'n cael eu hystyried y tymor hwn yn cynnwys cynnal proses ailbrisio, adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a gwerthuso gostyngiadau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau – gydag opsiynau ar gyfer diwygio mwy sylfaenol yn y tymor hwy³. ”
- 1.2 Dechreuodd Llywodraeth flaenorol Cymru (2016-2021) y broses o ddiwygio drwy gyflwyno, yn 2019, ymysg camau eraill, pedwar ymyriad allweddol a oedd yn gweithio o fewn y fframwaith Treth Gyngor cyfredol:
- Dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu treth gyngor.
 - Cyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer dda wrth gasglu'r dreth gyngor⁴. Mae'n god ymarfer gwirfoddol ar gyfer gorfodi ac ar gyfer cynorthwyo rhai sydd â dyled Treth Gyngor. Mae pob cyngor yng Nghymru wedi cytuno i'w weithredu.
 - Safoni'r broses ymgeisio ar gyfer rhai sydd â 'nam meddyliol difrifol'. Fel rhan o hyn, roedd angen i gynghorau fabwysiadu proses ymgeisio gyffredin a safoni gwybodaeth a ddarperir ynghylch yr eithriad.

¹ Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad (<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/programme-for-government-update-december-2021.pdf>), 2022

² Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, (<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/programme-for-government-update-december-2021.pdf>), 2022

³ Llywodraeth Cymru, Cynlluniau i ddiwygio'r Dreth Gyngor, (<https://gov.wales/council-tax-reform-planned>), 7 Rhagfyr 2021

⁴ Llywodraeth Cymru, Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer Dda wrth Gasglu'r Dreth Gyngor, (<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2220>), 2019

- Deddfwriaeth a oedd yn darparu eithriad i ymadawyr gofal rhag talu'r Dreth Gyngor tan eu pen-blwydd yn 25 mlwydd oed, gyda'r nod o'u cynorthwyo gyda'r newid i fod yn oedolyn.

1.3 Yn 2022, comisiynwyd Policy in Practice gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil gyda dau amcan allweddol:

- Gwerthuso'r ffordd y mae'r pedwar mesur ymyrryd Treth Gyngor a gyflwynwyd yn 2019 yn cael eu gweithredu a'u darparu yn lleol.
- Gwerthuso effaith y mesurau hyn ar breswylwyr a chynghorau.

1.4 Er hwylustod, darperir y canfyddiadau ar gyfer bob un o'r pedwar ymyriad mewn pedwar adroddiad ar wahân. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso'r broses o gyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru.

2. Cefndir

- 2.1 Mae pryder wedi bod ers tro ymhlith asiantaethau cymorth a chyngor lles ynghylch polisiau casglu dyledion cynghorau. Amcangyfrifodd Cyngor ar Bopeth fod traean o'r problemau casglu dyled y gwnaethant ddarparu cymorth ar eu cyfer i gleientiaid yng Nghymru a Lloegr yn 2016 yn ymwneud â dyled Treth Gyngor⁵. Gall dyled Treth Gyngor gynyddu'n gyflym; yn sgil rheoliadau casglu Treth Gyngor, mae methu un taliad yn gallu arwain at atebolrwydd am ffi'r flwyddyn gyfan. Yn ogystal, cyfyngedig yw'r pwerau sydd gan gynghorau i adennill dyled heb orchymyn llys. Caiff cost gorchymyn llys a defnyddio asiantau gorfodi ei ychwanegu at y ddyled, gan waethygu'r argyfwng dyled⁶.
- 2.2 Dangosodd gwaith ymchwil a gynhaliodd Policy in Practice ar gyfer y Greater London Authority (GLA)⁷ yn 2020 fod gofyn i bobl dalu'r Dreth Gyngor yn llawn ar unwaith ar ôl methu un rhandaliad wedi arwain at ddiffyg yn incwm mwy na hanner (53%) o'r holl aelwydydd a oedd wedi'u cynrychioli yn y setiau data ar gyfer bwrdeistrefi Llundain. Roedd ychwanegu ffioedd adennill a gorfodi at y baich ariannol hwn yn cynyddu canran yr aelwydydd a oedd mewn diffyg ariannol i 83%.
- 2.3 Yn 2018, mewn ymchwil gan y Joseph Rowntree Foundation ar amddifadrwydd yn y DU,⁸ tynnwyd sylw at y ffordd y gall arferion casglu dyledion anghydlynus gan awdurdodau cyhoeddus gyfrannu at adael aelwydydd heb fawr ddim i fyw oddi arno. Amlygwyd ôl-ddyledion rhent a Threth Gyngor fel dau ffactor mawr a oedd yn achosi amddifadrwydd.
- 2.4 Ers 2014, mae arferion casglu dyledion cynghorau yn cymharu'n wael â rhai'r sector preifat. Yn gyffredinol, mae arferion yn y sector preifat bellach yn canolbwyntio ar y

⁵ Cyngor ar Bopeth, The Cost of Collection, (https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Debt%20and%20Money%20Publications/FINAL_%20Costs%20of%20Collection%20.pdf), 2019

⁶ Cyngor ar Bopeth, The Cost of Collection, (https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Debt%20and%20Money%20Publications/FINAL_%20Costs%20of%20Collection%20.pdf), 2019

⁷ Policy in Practice, Council Tax debt collection and low-income Londoners, (https://policyinpractice.co.uk/wp-content/uploads/Council-Tax-debt-collection-and-low-income-Londoners_GLA_pub.pdf), 2020

⁸ JRF, Destitution in the UK, JRF, (<https://www.jrf.org.uk/file/57091/download?token=U5m1jFLR&filetype=full-report>), 2020

cwsmer fwy nag y maent mewn rhannau o'r sector cyhoeddus. Yn 2014, newidiodd y Llywodraeth y drefn ar gyfer rheoleiddio'r sector credyd defnyddwyr drwy drosglwyddo atebolrwydd o'r Swyddfa Masnachu Teg i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae cod ymarfer yr FCA yn darparu dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gyda chymorth lle bo'n briodol, a gyda thegwch wrth wraidd camau adennill.

- 2.5 I gynghorau, mae yna densiwn rhwng y dymuniad i gefnogi aelwydydd incwm isel a'r angen i warchod eu cyllidebau. Mae'n bosib fod cynghorau'n amharod i fabwysiadu arferion newydd os ydynt yn credu y gallai hynny beryglu cyfraddau casglu.
- 2.6 Yn 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil⁹ i gael gwell dealltwriaeth o ddull cynghorau Cymru o gasglu dyledion Treth Gyngor a beth, o bosib, fyddai'n gwella'r dull. Dangosodd y canfyddiadau fod cynghorau'n cydnabod bod ffactorau economaidd lleol a'r gallu i dalu yn effeithio ar y gallu i gasglu Treth Gyngor. Dywedodd y mwyafrif o'r cynghorau eu bod yn dosbarthu dyledwyr er mwyn amlygu cyfrifon a allai fod yn anaddas ar gyfer casglu drwy'r llwybr gorfodi safonol. Fodd bynnag, yn ôl y gwaith ymchwil, roedd amrywiad o ran y graddau yr oedd cynghorau'n mynd ati'n rhagweithiol i ganfod ac ymgysylltu â phreswylwyr bregus, a dywedodd y sector cynghori fod yna amrywiadau o ran pa mor dda yr oedd cynghorau am amlygu aelwydydd bregus.

Er bod yr ymchwil yn dangos bod y mwyafrif o'r cynghorau wedi dweud eu bod yn cyfeirio at wasanaethau cymorth a chyngor ar ddyledion, roedd tystiolaeth o'r sector cynghori yn awgrymu diffyg o ran darparu gwybodaeth a chyngor. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y wybodaeth a'r cyfeirio a ddarperir, yn enwedig ar-lein, yn anghyson o un cyngor i'r llall yng Nghymru.

⁹ Llywodraeth Cymru, Dulliau Awdurdodau Lleol o Ymdrin ag Adennill Dyledion y Dreth Gyngor ynn Nghymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 57/2017 (<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/170928-local-authorities-approaches-council-tax-debt-recovery-summary-cy.pdf>), 2016

- 2.7 Un o'r argymhellion o'r gwaith ymchwil oedd y dylai cynghorau Cymru weithredu polisi cytunedig ar gyfer rheoli casgliadau ac ôl-ddyledion, gyda safonau gofynnol. Dylai'r polisi gynnwys disgwyliadau o ran y ffordd y mae cynghorau Cymru yn gweithio gydag asiantau gorfodi, y sector cynghori a thrydydd partïon eraill perthnasol. Argymhelliad arall oedd y dylai cyfeiriadau at wybodaeth a chyngor fod yn glir, yn hygyrch ac yn gyson ar draws yr holl sianeli cyfathrebu.
- 2.8 I fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a fynegwyd ynghylch polisiau casglu Treth Gyngor ac effaith hyn ar ddyledwyr incwm isel, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Brothocol Treth Gyngor Cymru,¹⁰ sy'n gosod safonau gofynnol a pholisi cytunedig ar reoli casgliadau ac ôl-ddyledion Treth Gyngor. Fe gafodd y Protocol ei lywio gan ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 a Phrotocolau sy'n bodoli eisoes, megis y Protocol Arferion Da ar gyfer Ôl-ddyledion Treth Gyngor a ddatblygwyd gan Cyngor ar Bopeth¹¹. Cymeradwywyd darpariaethau'r Protocol gan gynghorau yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac fe'i llofnodwyd ym mis Ionawr 2019 gan bob un o gynghorau Cymru.
- 2.9 Mae'r Protocol yn ymdrin â thri phrif faes:
- Cydweithio rhwng yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â chynorthwyo pobl fregus i reoli eu rhwymedigaethau a dyledion Treth Gyngor
 - Gwybodaeth a ddarperir ar draws yr holl gyfryngau
 - Camau adennill a gymerwyd.
- 2.10 Mae'r Protocol yn cydnabod bod angen cefnogaeth ychwanegol i helpu cwsmeriaid bregus i ymgysylltu â'r cyngor neu asiantau gorfodi ar unrhyw gam o'r broses. Un o brif ofynion y Protocol yw bod pob cyngor yn darparu cymorth effeithiol i bobl fregus ar gyfer rheoli eu hatebolrwydd treth Gyngor ac yn cynnig cymorth priodol os byddant yn mynd i ddyled.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Protocol Treth Gyngor Cymru - Arfer Dda wrth Gasglu'r Dreth Gyngor, (<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2221>), 2019

¹¹ Cyngor ar Bopeth, Collection of Council Tax arrears – good practice protocol, (https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/pdf-ct-protocol2013.pdf), 2013

- 2.11 Fodd bynnag, mynegwyd pryder (e.e. gan Cyngor ar Bopeth Cymru¹²) ei bod yn bosib nad yw'r Protocol yn cael ei weithredu'n gyson ledled cynghorau Cymru, gan mai gwirfoddol ydyw. Ym mis Tachwedd 2021, casglodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru dystiolaeth gan dystion ynghylch dyled yn ystod y pandemig. Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn sgil hyn, sef "Dyled a'r pandemig"¹³ yn cynnwys galwadau i gryfhau'r Protocol Treth Gyngor. Galwodd Karen Davies o Purple Shoots (elusen microgyllid) am fframwaith cenedlaethol ac roedd Cyngor ar Bopeth am i Lywodraeth Cymru werthuso'r Protocol. Roedd gan y Pwyllgor bryderon ynghylch cysondeb wrth weithredu'r Protocol a dywedodd:"Er bod awdurdodau lleol ar y cyfan yn casglu ôl-ddyledion mewn ffordd gyfrifol, mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod rhai enghreifftiau o arferion gwael sy'n destun pryder ac y dylid rhoi sylw pellach iddynt yn ein barn ni." Roedd yn dweud y dylai'r adolygiad ystyried a oes angen cryfhau'r Protocol, gan gynnwys ystyried a fyddai'n fuddiol gosod y Protocol ar sail statudol.
- 2.12 Yn ystod tystiolaeth lafar i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl gamau a gymerir i "leihau'r pwysau ar bobl sy'n agored i niwed mewn perthynas â'r dreth gyngor" ac y byddai hyn yn cynnwys adolygu'r Protocol.

¹² Cyngor ar Bopeth, Helpu i sicrhau system decach ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru (<https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Wales%20Policy%20and%20Campaigns/Council%20Tax%20Briefing%20-%20Manifesto.pdf>), 2021

¹³ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru, Dyled a'r pandemig, (<https://senedd.cymru/media/cedpt4cg/cr-ld14666-w.pdf>), 2021

3. **Dull**

- 3.1 Cynhaliwyd y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn yn 2022. Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar ymchwil desg, dadansoddi meintiol a gwaith maes, sy'n cynnwys arolwg o swyddogion cyngor a chyfweliadau gyda sefydliadau trydydd parti.
- 3.2 Mae'r ymchwil desg yn cyfuno canfyddiadau ymchwil a wnaed eisoes ac yn archwilio gwefannau cynghorau yng Nghymru er mwyn gwerthuso cydymffurfiaid â Phrotocol Treth Gyngor Cymru. Mae hyn yn ein helpu i ddeall cysondeb o ran gweithredu ar draws y cynghorau ac yn amlygu arferion da.
- 3.3 Defnyddir gwaith dadansoddi data ac ystadegol er mwyn deall a yw'r lefel dileu dyled a'r ymagwedd tuag at daliadau S13A ar gyfer ôl-ddyledion Treth Gyngor wedi newid o ganlyniad i gyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru.
- 3.4 Mae arolygon, cyfweliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid ac ymadawyr gofal yn darparu tystiolaeth o weithredu'r Protocol, lefel y cysondeb wrth weithredu'r Protocol o un cyngor i'r llall, tystiolaeth o effaith a chyd-destun i'r canfyddiadau.

4. Methodoleg

Gwerthusiad sylfaenol o weithrediad Protocol Treth Gyngor Cymru

4.1 Mae Protocol Treth Gyngor Cymru yn cynnwys y darpariaethau canlynol:

"Dylai Awdurdodau Lleol ac Asiantau Gorfodi hysbysebu manylion cyswllt ymgynghorwyr dyled lleol [a] chenedlaethol ar eu gwefannau.

Dylai bob parti geisio cydweithio i adolygu a hyrwyddo gwell ymgysylltiad â thalwyr Treth y Cyngor, dylai hyn gynnwys:

- a. Gwybodaeth ar sut y gellir lleihau biliau drwy gronfeydd cymorth, esgusodiadau a Chynllun Gostyngiad Treth y Cyngor;*
- b. Sut y dylai trethdalwyr gysylltu â'r Awdurdod Lleol os ydynt yn profi caledi ariannol; a'r*
- c. Canlyniadau o adael i ddyledion ar flaenoriaeth gronni."*

4.2 Adolygwyd gwefan pob un o'r 22 cyngor yng Nghymru i weld a oedd tystiolaeth o gydymffurfiaid â'r Protocol ar y wefan. Cyfeirio at gymorth â dyledion, cymorth ar gyfer caledi ariannol a rhwyddineb cysylltu ynghylch ôl-ddyledion Treth Gyngor yw'r procsis a ddefnyddir i ddangos cydymffurfiaid â'r Protocol. Defnyddiwyd yr adolygiad o wefannau cynghorau wrth geisio ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- A yw'r cyngor yn darparu gwybodaeth sy'n cyfeirio at gymorth gyda dyledion?
- A oes gan y cyngor gyfarwyddiadau clir ynghylch cymorth ar gyfer caledi ariannol?
- A oes tystiolaeth o arferion da wrth gynorthwyo preswylwyr sy'n wynebu caledi ariannol?
- A yw'n rhwydd cael gafael ar wybodaeth ynghylch eithrio, rhyddhad a chymorth gyda'r Dreth Gyngor?

4.3 Er mwyn cymharu dyled Treth Gyngor a ddilëwyd yn 2021-2022 â chydymffurfiaid â'r Protocol yn ôl tystiolaeth ar wefannau, rhoddir sgôr rhwng 0 a 3 i bob cyngor (mewn camau o 0.5). Rhoddir 1 pwynt am fodloni pob un o'r nodweddion canlynol: gwybodaeth ynghylch beth i'w wneud os yw preswlydd yn cael anhawster talu, gwybodaeth ynghylch sut i roi gwybod i'r cyngor am anhawster talu, a gwybodaeth

yn cyfeirio at gasglwyr dyled. Os oedd amod yn cael ei fodloni'n rhannol, rhoddwyd sgôr o 0.5.

- 4.4 Adolygwyd y gwefannau rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2022 ac mae'n bosib eu bod wedi cael eu diweddarau ers hynny.

Dadansoddiad ystadegol o'r effaith

- 4.5 Mae cynnal dadansoddiad ystadegol o effaith cyflwyno Protocol Treth Gyngor Cymru yn heriol oherwydd dau ffactor allweddol:

- Nid oes data cyhoeddedig a gasglwyd yn ganolog ar gael ar weithgarwch gorfodi cynghorau
- Fe gafodd y pandemig COVID-19 (2019-2021) effaith sylweddol ar weithgarwch casglu cynghorau ac mae hyn yn debygol o fwrw cysgod dros unrhyw newid mewn arferion casglu o ganlyniad i gyflwyno'r Protocol.

- 4.6 Mae data cyhoeddedig ar gael ar swm y Dreth Gyngor sy'n cael ei dileu bob blwyddyn gan gynghorau, a gellir defnyddio hyn i ddangos a yw cynghorau yng Nghymru yn newid eu hymagwedd at gasglu a'r defnydd o ryddhad yn ôl disgrisiwn o dan S13A i gynorthwyo aelwydydd bregus. Defnyddir set ddata StatsCymru, "Cyfraddau casglu treth gyngor, yn ôl awdurdod bilio (£mil), Symiau wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn" i ganfod tueddiadau o ran dileu dyled.

Data Arolygon a Chyfweliadau

- 4.7 Dadansoddwyd data meintiol ac ansoddol cynradd a gasglwyd drwy arolygon ar-lein a chyfweliadau fel sail i'r gwerthusiad o'r broses a'r effaith. Darperir y fethodoleg ar gyfer y gwaith maes a rhestr o gyfranogwyr yr arolwg yn Atodiad 1.
- 4.8 Cynhaliwyd arolwg gyda phob cyngor yng Nghymru i gael gwybod beth oedd eu dealltwriaeth o'r pedwar ymyriad Treth Gyngor. Roedd cwestiynau penodol yn ymdrin â gweithredu'r Protocol Treth Gyngor, a'i effaith. Gwahoddwyd pob cyngor i gymryd rhan a dosbarthwyd yr arolygon yn bennaf i'r Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau. Cafwyd 23 ymateb i'r arolwg gan 14 o gynghorau. Mae cwestiynau'r arolwg i'w cael yn Atodiad 2.

- 4.9 Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag asiantaethau trydydd parti er mwyn casglu barn ynghylch gweithredu'r Protocol Treth Gyngor, a'i effaith. Cyfwelwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mind Cymru, Sefydliad Bevan a Chyngor ar Bopeth Cymru. Roedd y cyfweiliadau'n para oddeutu awr ac roeddynt yn lled-strwythuredig.
- 4.10 Darparodd yr arolwg, y cyfweiliadau a'r sgysiau bord gron giplun disgrifiadol o ymwybyddiaeth, profiad ac effaith o ran y Protocol Treth Gyngor.

5. **Canfyddiadau: Gweithredu'r Protocol Treth Gyngor**

Cyflwyniad


5.1 Er mwyn deall i ba raddau mae'r Protocol Treth Gyngor yn cael ei weithredu yng nghynghorau Cymru, cynhaliwyd gwaith maes ac ymchwil cynradd.

- Cynhaliwyd arolwg gyda swyddogion cyngor i geisio deall y profiad o weithredu Protocol Treth Gyngor Cymru.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda Cyngor ar Bopeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mind Cymru a Sefydliad Bevan i geisio dod i ddeall pa mor gyson yr oedd y Protocol yn cael ei weithredu yn ôl eu profiad nhw.
- Gwerthuswyd gwefannau cynghorau yng Nghymru i gael tystiolaeth yn ymwneud â gweithredu'r Protocol. Roedd y gwaith ymchwil yn gwerthuso mesurau a geir yn y Protocol, megis cyfeirio at gymorth â dyledion, cyfeirio at gymorth â thrafferthion ariannol, a rhwyddineb cael gostwng bil Treth Gyngor drwy ryddhad Treth Gyngor, eithriadau a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Profiad cynghorau Cymru o weithredu'r Protocol

5.2 Cynhaliwyd arolwg gyda chynghorau yng Nghymru er mwyn ceisio deall lefel yr ymwybyddiaeth o'r Protocol Treth Gyngor ar draws y cynghorau. Roedd yn ymddangos bod lefel yr ymwybyddiaeth yn uchel, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr (96%) yn dweud eu bod yn gwybod llawer neu gryn dipyn am y Protocol. Un ymatebydd yn unig a ddywedodd fod arno angen rhagor o hyfforddiant ar y Protocol.


Ffigwr 1: Ymateb i gwestiwn arolwg "Faint ydych chi'n ei wybod am Brotocol Treth Gyngor Cymru?"



(Ffynhonnell: Arolwg o gynghorau yng Nghymru, cyfanswm o 23 ymateb)

5.3 Gofynnwyd i gynghorau nodi i ba raddau yr oedd ymagwedd y cyngor at gasglu a gorfodi Treth Gyngor wedi newid o ganlyniad i'r Protocol. Dywedodd mwyafrif y cynghorau a ymatebodd i'r arolwg nad oedd ymagwedd y cyngor wedi newid o gwbl neu ei fod wedi newid ychydig. Ni ddywedodd yr un cyngor fod cyflwyno'r Protocol wedi arwain at newid sylweddol o ran gweithgarwch gorfodi a chasglu.

Ffigwr 2: Ymateb i gwestiwn arolwg: "I ba raddau mae gweithgarwch gorfodi a chasglu y cyngor wedi newid o ganlyniad i'r Protocol?"



- Mae casglu a gorfodi wedi newid i raddau helaeth o ganlyniad i'r Protocol
- Mae casglu a gorfodi wedi newid i ryw raddau o ganlyniad i'r Protocol
- Mae casglu a gorfodi wedi newid ychydig o ganlyniad i'r Protocol
- Nid yw casglu a gorfodi wedi newid o gwbl o ganlyniad i'r Protocol

(Ffynhonnell: Arolwg o gynghorau yng Nghymru, cyfanswm o 14 ymateb)

- 5.4 Dywedodd pum ymatebydd ar ran cyngor nad oeddynt wedi cael hyfforddiant o gwbl ar y Protocol. Roedd y gweddill wedi cael hyfforddiant, wedi'i gyflwyno'n fewnol yn gyffredinol. Dywedodd nifer o gynghorau fod canllawiau'n cael eu darparu yn ogystal â hyfforddiant.
- 5.5 Dywedodd y cynghorau a ymatebodd i'r arolwg fod y prif gymorth ar gyfer gweithredu'r Protocol yn digwydd drwy ganllawiau a ddarperir gyda'r Protocol a thrwy rannu arferion drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- 5.6 Roedd y berthynas ag asiantau gorfodi yn cael ei hystyried yn bwysig er mwyn gallu gweithredu arferion da o ran casglu a gorfodi yn effeithiol, boed hynny drwy osgoi defnyddio asiantaethau gorfodi allanol neu drwy gyswllt rheolaidd.

"[Mae] cael strategaeth glir o osgoi asiantau gorfodi cymaint â phosib [o help i weithredu]."

"[Mae] cyfarfodydd rheolaidd gyda'n Hasiantau Gorfodi [o help i weithredu]."

(Ymatebion i'r arolwg gan gynghorau yng Nghymru)

- 5.7 Mae ymatebion gan gynghorau yng Nghymru i'r arolwg yn awgrymu mai ychydig iawn o newid a weithredwyd o ran mesurau gorfodi neu gasglu Treth Gyngor ar ôl

cyflwyno'r Protocol Treth Gyngor. Roedd y mwyafrif o'r cynghorau yng Nghymru o'r farn nad oedd angen na gofyn i'r cyngor fynd ati'n benodol i weithredu'r Protocol gan fod yr arferion eisoes ar waith cyn cyflwyno'r Protocol.

"Roedd y rhan fwyaf o'r agweddau ar y Protocol eisoes ar waith gan awdurdodau lleol."

"Roedd yr holl arferion eisoes ar waith cyn i ddogfen y Protocol gael ei chynhyrchu."

"Rydym eisoes yn dilyn yr hyn a nodir yn y Protocol."

(Ymatebion i'r arolwg gan gynghorau yng Nghymru)

- 5.8 Dywedodd bob cyngor fod ganddo fesurau ar waith i helpu preswylwyr bregus ac i gynnwys ystyriaeth i fregusrwydd o fewn gweithgarwch casglu a gorfodi Treth Gyngor y cyngor. Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cynghorau fod yr arfer hon eisoes ar waith cyn cyflwyno'r Protocol Treth Gyngor ac nad ydyw wedi cael ei chyflwyno neu ei newid oherwydd y Protocol.

"Rydym bob amser wedi ceisio cefnogi bob math o bobl, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, a hynny gan barhau ar yr un pryd i geisio cyflawni ein nod ein hunain o gasglu'r dreth."

"Nid ydym wedi newid dim; rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth amlygu preswylwyr bregus erioed."

"Ni wnaeth y Protocol unrhyw wahaniaeth i'r ffordd rydym yn gweithredu [o ran preswylwyr bregus]."

"Mae'r cyngor yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau eraill a'i asiantau gorfodi i amlygu dyledwyr bregus er mwyn gallu darparu cymorth priodol."

"Rydym eisoes yn gweithio'n gall yn y maes hwn beth bynnag."

(Ymatebion i'r arolwg gan gynghorau yng Nghymru)

- 5.9 Dywedodd bob cyngor bod ei asiantau gorfodi neu swyddogion gorfodi mewnol yn amlygu bregusrwydd. Dywedodd un cyngor ei fod wedi dewis asiantaeth orfodi foesegol sy'n cydweithio'n agos â'r cyngor i amlygu bregusrwydd.

"Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n hasiantau gorfodi. Maen nhw'n gwmni moesegol iawn sydd wedi cael hyfforddiant trylwyr ar fregusrwydd. Yn aml, maen nhw'n ein helpu i amlygu bregusrwydd pan na fyddai wedi dod i'r amlwg fel arall. Bydd achosion yn cael eu trosglwyddo'n ôl i ni pan fo'n briodol. Mae natur y bregusrwydd yn bwysig, ac fe wnân nhw ystyried trefniant gostyngol neu gyfeirio at eu tîm lles eu hunain."

(Ymateb i'r arolwg gan gyngor yng Nghymru)

- 5.10 Roedd nifer o gynghorau wedi sefydlu trefniadau cyfeirio ar gyfer cymorth cyfannol pan fydd asiantau gorfodi'n amlygu bregusrwydd. Roedd yr asiantaethau y byddai preswylwyr bregus yn cael eu cyfeirio atynt yn cynnwys tîm lles y cyngor ei hun, tîm lles mewnol yr asiant gorfodi, ac asiantaethau cymorth allanol (megis Cyngor ar Bopeth).

"[Byddai'r asiantau gorfodi yn] eu cyfeirio at eu tîm lles ac yn rhoi gwybod i ni am fregusrwydd y cleient."

"[Mae'r asiantau gorfodi yn] rhewi'r cyfrif, ceisio cyngor pellach, a chyfeirio at asiantaethau arbenigol os yw'n briodol, neu maent yn cyfeirio at y tîm lles."

"Mae gan yr asiantau gorfodi dîm arbenigol i ymdrin â bregusrwydd, ac ym mhob achos sy'n cael ei amlygu, bydd camau adennill yn cael eu gohirio er mwyn darparu unrhyw gymorth priodol."

"[Mae'r asiantau gorfodi yn] cyfeirio'r unigolyn at weithwyr y ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) leol. Mae ganddynt berthynas agos iawn gyda'r asiantaeth, [gyda] chyfarfodydd misol i drafod achosion."

(Ymatebion i'r arolwg gan gynghorau yng Nghymru)

Barn trydydd partiön ar weithrediad y Protocol

- 5.11 Roedd sefydliadau trydydd parti a gyfwelwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn o'r farn nad yw gweithredu'r Protocol wedi arwain at arferion cyson o ran casglu a gorfodi Treth Gyngor ledled cynghorau Cymru, a bod 'loteri cod post' o ran casglu a gorfodi Treth Gyngor yn dal i fodoli yng Nghymru.

Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu'r Protocol Treth Gyngor ond yn teimlo bod yr anghysondeb o ran gweithredu yn dangos bod angen cod statudol neu ganllawiau cryfach.

"Mae angen i'r elfennau fod yn gryfach ac yn fwy gorfodol, yn fwy statudol er mwyn cael cysondeb ar draws cynghorau. [Mae'n] dal i fod yn gymysgfa go iawn o gydymffurfiaid â'r Protocol, ar draws cynghorau ac o fewn cynghorau."

"Mae hyn yn eithaf gwan gan un neu ddau o gynghorau yn gyson. Mae'r cynghorau hyn yn fwy llym gyda phobl ac yn fwy tebygol o ddefnyddio asiantau gorfodi."

"[Mae] cymysgfa o ran y ffyrdd mae cynghorau'n amlygu bregusrwydd. Mae angen i gynghorau gael yr un dull yn y lle cyntaf."

"Mae gan rai cynghorau ethos cefnogol ac mae eraill yn edrych ar y llinell isaf ac yn canolbwyntio'n bennaf ar gael arian i mewn."

(Cyngor ar Bopeth Cymru)

- 5.12 Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru fod anghysondeb o ran ymagwedd at gasglu a gorfodi i'w weld o fewn cynghorau yn ogystal â rhwng cynghorau. Gwnaethant gyfeirio at nifer o enghreifftiau lle'r oedd cleientiaid wedi cael gwahanol gyngor gan wahanol aelodau o staff yn yr un cyngor. Roedd gan y gwahanol aelodau o staff wahanol ymagweddau at gamau gorfodi, cefnogi preswylwyr a pharodrwydd i wneud trefniadau talu fforddiadwy.
- 5.13 Roedd Sefydliad Bevan yn cefnogi'r farn fod diffyg cysondeb yn dal i fod rhwng cynghorau Cymru o ran casglu a gorfodi ôl-ddyledion Treth Gyngor. Roedd yn dweud bod rhai cynghorau'n dechrau rhoi camau gorfodi ar waith cyn gynted â bo rhywun mewn ôl-ddyledion, heb wirio a fyddent yn gymwys i gael cymorth gyda'r Dreth Gyngor neu gymorth arall. Roedd gan gynghorau eraill ymagwedd fwy cyfannol at adennill dyled. Roedd Sefydliad Bevan hefyd yn dweud bod y defnydd o ddata i fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi pobl ar incwm isel yn amrywio rhwng cynghorau. Roedd rhai cynghorau'n ymateb i hysbysiad gan y DWP fod rhywun yn derbyn Credyd Cynhwysol drwy ddyfarnu cymorth Treth Gyngor yn awtomatig, neu wahodd pobl i wneud cais amdano. Roedd cynghorau eraill yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y preswilydd i chwilio'n rhagweithiol am unrhyw gymorth y gallai fod yn gymwys i'w

gael. Roedd yr ail o'r dulliau hyn yn peri risg o ôl-ddyledion Treth Gyngor a dechrau camau gorfodi, cyn canfod a allai'r preswlydd fod yn gymwys i gael cymorth.

Rhwystrau rhag gweithredu'r Protocol Treth Gyngor

5.14 Nodwyd nifer o ffactorau sy'n creu rhwystr rhag gweithredu:

- Mae'r ddeddfwriaeth ar gasglu Treth Gyngor yn hen ac weithiau'n rhwystro cynghorau rhag gallu cynorthwyo aelwydydd bregus.

"Dim ond hyn a hyn y gall y Protocol ei wneud. Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch casglu yn dyddio'n ôl 30 mlynedd ac mae angen ei ddiweddarau ar gyfer heddiw a'i wneud yn decach. Er enghraifft, mae rhywun yn dod yn atebol am dalu bil cyfan os ydynt yn methu un taliad. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi newid y ddeddfwriaeth ynghylch hyn."

(Cyngor ar Bopeth, Cymru)

- Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod angen mwy o rannu data gyda chynghorau a gan gynghorau er mwyn amlygu unigolion sy'n gymwys i gael cymorth neu'n fregus. Roedd yn bryderus fod cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi ei gwneud hi'n anos i gynghorau weld pwy sydd ar incwm isel neu'n fregus. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o blaid newid y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod mwy o rannu data yn bosib. Heb hyn, roedd yn teimlo bod y cyfrifoldeb yn cael ei roi ar breswylwyr i chwilio am gymorth ac na fyddai hynny'n digwydd, o bosib, tan yn hwyr yn y broses orfodi.

"Roedd gan gynghorau lawer mwy o reolaeth pan roddwyd Budd-dal Treth Gyngor a Budd-dal Tai. [Mae bellach yn] sefyllfa ddifrifol lle nad yw pobl yn deall eu hawl i gymorth."

(Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

- Roedd y pwysau ar gynghorau i gynnal cyfraddau casglu o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yn rhwystr rhag gweithredu argymhelliad y Protocol i ymestyn ad-daliadau ôl-ddyledion dros flynyddoedd.

"Mae'r Protocol yn dweud y gallwch dalu y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol; ond ceir pwysau mewnol i gasglu arian o fewn y flwyddyn. Os nad oes gan rywun yr arian

i dalu £100 y mis, efallai y gallant dalu £10 y mis dros gyfnod hirach. Mae cynghorau'n amharod i ymestyn ad-daliadau dros flynyddoedd ariannol, ond mae'n gwneud ad-dalu dyledion yn fwy fforddiadwy."

(Sefydliad Bevan)

- Roedd diffyg hyfforddiant ac arweiniad yn cael ei ystyried yn rhwystr rhag gweithredu'r ateb mwyaf perthnasol i ddyled ar gyfer preswlydd.

"Mae ar gynghorau angen gwell hyfforddiant ar gysondeb a bregusrwydd."

(Cyngor ar Bopeth Cymru)

- Dywedodd sefydliadau trydydd parti y gallai trefniadaeth fewnol cyngor greu rhwystr rhag cysondeb o ran arferion casglu, yn enwedig os yw'r adrannau gorfodi neu gasglu ar wahân i'r adran sy'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth o fewn y cyngor. Dywedodd Sefydliad Bevan fod mwy o gysondeb, yn ôl eu profiad nhw, os yw'r adrannau'n nes at ei gilydd yn ddaearyddol. Roedd gwahanu agweddau yn arwain at fwy o anghysondebau.

Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru a Sefydliad Bevan yn teimlo'n gryf mai'r ffordd orau o sicrhau dull cyson ar gyfer ôl-ddyledion a chasglu Treth Gyngor fyddai rhoi sail statudol iddo.

"Heb sail statudol, mae gweithredu'n dibynnu ar fympwy cynghorau a beiliaid yn hytrach na "canllawiau clir ac effeithiol" o'r top. Nid yw arferion gorau yn cael eu monitro."

(Mind Cymru)

"Mae angen i elfennau fod yn gryfach ac yn fwy gorfodol, yn fwy statudol; er mwyn cael cysondeb ar draws cynghorau."

(Cyngor ar Bopeth Cymru)

Tystiolaeth ar wefannau o weithredu'r Protocol Treth Gyngor

- 5.15 Mae'n bosib gweld tystiolaeth o nifer o ddarpariaethau'r Protocol Treth Gyngor yn yr wybodaeth sydd ar gael ar wefan cyngor. Mae'r Protocol Treth Gyngor yn gosod gofyniad penodol ar gynghorau i gyfeirio at gymorth â dyledion, darparu cymorth â


chaledi ariannol a sicrhau bod gwybodaeth ynghylch eithriadau, rhyddhad a chymorth Treth Gyngor ar gael yn rhwydd. Os yw'r elfennau hyn wedi'u darparu ar wefan, mae'n awgrymu bod cyngor yn bodloni o leiaf rhai o ofynion y Protocol.

- 5.16 Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd a oedd yn cynnwys archwilio gwefannau cynghorau yng Nghymru fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Ym mis Mehefin 2022, gwerthuswyd gwefan pob cyngor yng Nghymru i gael tystiolaeth o weithredu mesurau'r Protocol sy'n ymwneud â chymorth â dyledion, cymorth ariannol a hygrychedd.

Darparu gwybodaeth sy'n cyfeirio at gymorth â dyledion ar wefannau

- 5.17 Adeg archwilio'r gwefannau, roedd 14 o'r 22 cyngor yn cyfeirio at gyngor ar ddyledion; roedd 10 o'r rhain yn cyfeirio at asiantaethau allanol a phedwar ohonynt yn cynghori preswylwyr i gysylltu â'r cyngor os oedd ganddynt broblemau'n ymwneud â dyledion. Nid yw'n hysbys a yw preswylwyr sy'n cysylltu â'r cyngor drwy'r llwybr hwn yn cael eu cyfeirio at gynghorwyr dyled profiadol ynteu'n cael eu cyfeirio i wneud trefniadau i ad-dalu dyled cyngor yn unig. Roedd gwefannau deg o gynghorau heb unrhyw gyngor na chyfeiriadau yn ymwneud â dyled.

Ffigwr 3: Gwefannau cynghorau yng Nghymru sy'n cyfeirio at gymorth â dyledion



(Ffynhonnell: Arolwg o wefannau 22 o gynghorau yng Nghymru)

Darparu gwybodaeth sy'n cyfeirio at gymorth ar gyfer trafferthion ariannol ar wefannau

- 5.18 Roedd 14 o gynghorau'n darparu gwybodaeth yn cyfeirio at gymorth ar gyfer trafferthion ariannol. Roedd yn ymddangos nad oedd gan yr wyth arall unrhyw gyngor ynghylch camau y dylai rhai sydd mewn caledi ariannol eu cymryd.
- 5.19 Roedd arfer wael i'w gweld mewn cwpwl o gynghorau lle'r oedd dewis "Anhawster Talu" yn arwain at dudalen a oedd yn rhestru camau gorfodi yn hytrach na chyfeirio at gymorth. Dangosir enghraifft a gymerwyd oddi ar wefan cyngor yng Nghymru yn Ffigwr 4.

Ffigwr 4: Enghraifft oddi ar wefan cyngor yng Nghymru yn rhestru prosesau gorfodi fel cyngor ar gyfer defnyddwyr sy'n cael trafferth talu eu Treth Gyngor

Anawsterau yn talu eich treth gyngor

Dylai taliadau gael eu derbyn ar neu cyn y dyddiadau dyledus fel y nodir ar eich bil treth gyngor. Gallech golli'r hawl i dalu drwy randaliadau os cyhoeddir hysbysiadau atgoffa am daliadau gorddyledus. Os oes angen cyflwyno gŵys (am achos yn y Llys Ynadon), bydd y balans llawn yn daladwy ac ychwanegir costau o £37.50.

Os na chaiff yr wŷs ei thalu'n llawn, yn cynnwys y costau, erbyn dyddiad y gwrandawriad, bydd y cyngor yn symud ymlaen gyda'r achos ac yn gofyn am orchymyn atebolrwydd, gan ychwanegu cost bellach o £30.00.

Mae gorchymyn atebolrwydd yn galluogi'r cyngor i gymryd camau pellach i adennill y ddyled.

Byddwn yn eich hysbysu drwy lythyr pan gawn orchymyn atebolrwydd. Pan dderbyniwch y llythyr hwnnw, dylech gysylltu â ni ar unwaith i drafod eich sefyllfa a gwneud trefniant i dalu'r swm sy'n ddyledus gennych.

Gallwch gysylltu â ni am gyngor ar unrhyw amser os ydych yn hwyr gyda'ch taliadau. Os ydych wedi derbyn gŵys, gallwch wneud trefniant ar gyfer talu ond bydd yn rhaid i chi ddal i dalu costau'r wŷs. Os na chaiff ei dalu'n llawn erbyn dyddiad y gwrandawriad, byddwn yn dal i ofyn am orchymyn atebolrwydd gan y Llys Ynadon.

Cyn i chi gysylltu â ni, gallai fod o help i chi wneud rhestr o'ch incwm a'ch gwariant a gweithio mas faint y gallech fforddio ei ad-dalu bob wythnos neu fis.

Tystiolaeth ar wefannau o fynediad rhwydd at wybodaeth ar ostwng eich Treth Gyngor

5.20 Mae'r Protocol yn nodi y bydd cynghorau'n sicrhau mynediad rhwydd at gymorth â rhyddhad, eithriadau a gostyngiadau Treth Gyngor. Un o'r prif broblemau o ran hygyrchedd, a oedd yn gyffredin i'r mwyafrif o'r gwefannau, oedd ceisio dod o hyd i'r llwybr at wybodaeth am gymhwystra am gymorth â Threth Gyngor.

- Mae'r termau "Gostyngiad", "Disgownt" ac "Eithriadau" yn cael eu defnyddio'n wahanol gan wahanol gynghorau. Er enghraifft, roedd gwybodaeth am gymhwystra i gael disgownt o 25% i'w chael o dan 'eithriadau' gan rai cynghorau, o dan 'cymorth' gan gyngor arall, ac o dan 'disgownt' gan gyngor arall.
- Yn aml, mae Gostyngiad Treth Gyngor yn gategori ar wahân. Ni ellir dweud yn sicr a fyddai preswlydd yn gwybod bod hyn yn ymwneud â chymorth i aelwydydd sydd ar incwm isel yn hytrach na'i fod yn eithriad ychwanegol sy'n seiliedig ar nodweddion annedd neu breswlydd.

- Weithiau mae gwybodaeth am Ostyngiad Treth Gyngor i'w chael drwy'r opsiwn Budd-dal Tai. Os nad yw preswlydd yn gymwys am Fudd-dal Tai, mae'n annhebygol o ddewis yr opsiwn hwn.

5.21 Mae'n bosib y bydd angen i breswlydd fynd i lawr sawl llwybr ar y we cyn cyrraedd yr wybodaeth angenrheidiol ar eithriadau, disgownt neu Ostyngiad Treth Gyngor. Fel arfer, ni ddarperir diffiniad o'r derminoleg a ddefnyddir nes bod defnyddiwr wedi cyrraedd yr opsiwn dan sylw. Mae'n haws cael mynediad at wybodaeth ynghylch gostwng Treth Gyngor os yw disgownt ac eithriadau wedi'u rhoi yn yr un categori, os yw Gostyngiad Treth Gyngor wedi'i gynnwys ar y dudalen we Treth Gyngor (yn ogystal ag ar y dudalen Tai neu Fudd-dal Tai), ac os darperir diffiniad cryno i helpu pobl i ddewis. Dangosir enghraifft o'r dull hwn, a gymerwyd oddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych, yn Ffigur 5.

Ffigwr 5: Enghraifft o ddarparu diffiniadau o opsiynau cymorth Treth Gyngor, a gymerwyd oddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych

Dywedwch wrthym ni a ydych chi'n derbyn cwcis.

Rydym ni'n defnyddio [cwcis i gaelu](#) gwybodaeth ynglŷn â sut ydych chi'n defnyddio [sirddinbych.gov.uk](#). Rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud yn siŵr bod y wefan yn gweithio'n iawn ac i gwella ein gwasanaethau.

Derbyn pob cwci
Gosod dewisiadau cwcis

Neidio'r prif gynnwys

sir ddinbych denbighshire

Chwilio

[Fy nghyfrifon](#) [English](#)

Gwybodaeth am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

[Cartref](#) > Treth y cyngor


Treth y cyngor

Fe godir treth cyngor i ran-ariannu'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor ac mae hefyd yn cyfrannu tuag at ariannu Heddlu Gogledd Cymru.

Y Cynllun Cymorth Costau Byw


Gall y Cynllun Cymorth Costau Byw ddarparu taliad costau byw o £150 i aelodau cymwys.

[Mwy am y Cynllun Cymorth Costau Byw](#)




[Esboniad o'ch bil treth y cyngor](#)

Gwybodaeth am eich bil treth y cyngor.



[Disgowntiau a eithriadau](#)

Pa eiddo sy'n eithriadig a pha ddisgownt arall sydd ar gael.



[Talu treth cyngor](#)

Talu ar-lein neu gael gwybod mwy am ffyrdd eraill o dalu, fel debyd uniongyrchol.

[Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor](#)

Fleindwch a oes gennych chi hawl i help i dalu eich treth cyngor yn seiliedig ar eich incwm.

[Band eiddo treth y cyngor](#)

Fleindwch beth ydi'r band a'r swm sy'n daladwy ar yr eiddo.

[Biliau treth y cyngor ar-lein](#)

Gallwch dderbyn eich biliau treth y cyngor ar-lein os yw eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn symudol cyfredol gennym.

[Mewngofnodi neu gofrestru eich cyfrif treth y cyngor](#)

Mewngofnodwch neu cofrestrwch i weld eich balans cyfrif ar-lein, cofrestru ar gyfer e-filio, cael e hysbysiadau a

[Rhowch wybod i ni o newid](#)

Wedi symud i mewn neu allan? Newidiadau eraill? Sut i roi gwybod i ni.

[Problemau talu ac apeliadau](#)

Os ydych chi'n cael anhawster mae'n bosib y gallwn helpu.

Arfer dda o ran mesurau'r Protocol ar wefannau cyngorau.

5.22 Roedd wyth cyngor yn cyfeirio at gyngor ar ddyledion a chyngor i rai sydd mewn caledi ariannol. Cyngorau Caerffili, Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd oedd y rhain. Roedd rhai enghreifftiau gwerth eu nodi o arferion da:

- Ar wefan Cyngor Caerffili, mae "Problemau'n talu eich bil?" i'w weld yn amlwg yn yr hafan Treth Gyngor. Mae'r opsiwn hwn yn mynd â chi at dudalen sy'n cynghori pobl i gysylltu â'r cyngor yn fuan, yn cynnwys gwybodaeth am sut i hawlio Gostyngiad Treth Gyngor, yn cyfeirio at asiantaethau dyled a chyngor, ac yn cynnwys rhestr o ganlyniadau os na fydd y cwsmer yn gwneud dim.
- Roedd Cyngor Sir y Fflint yn nodi'n glir fod y cyngor yn gallu helpu. Mae hyn i'w weld ar bob tudalen we berthnasol a cheir enghraifft ohono yn Ffigwr 6.

Ffigwr 6: Enghraifft oddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint yn annog ymgysylltu ag aelwydydd sy'n cael trafferth talu eu Treth Gyngor

i Os ydych chi'n cael trafferth talu'ch bil

Os ydych chi'n cael trafferth talu'ch Treth Gyngor, dywedwch wrthym. Rydym yn awyddus i'ch helpu chi i dalu'r Dreth Gyngor ac mae'n bosibl i ni ddod i ryw drefniant y gallwch ei fforddio. Os na fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn cael trafferth gwneud eich taliadau rheolaidd, mae'n bosibl y byddwn yn codi taliadau ychwanegol arnoch.

Rwy'n ei chael hi'n anodd talu fy Nhreth Gyngor ar y dyddiadau talu. Fedra' i newid fy nyddiad talu?

Os ydi'ch dyddiad talu'n anghyfleus, beth am dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol gan fod hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i chi. Gallwch dalu ar y 1af, 8fed, 18fed neu'r 25ain diwrnod o bob mis neu bob wythnos, os yw'n well gennych.

Os byddwch yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, gallwch fod yn sicr y bydd eich taliad yn ein cyrraedd mewn da bryd ac na fydd angen i chi boeni y byddwn yn cymryd unrhyw


- Mae gan Gyngor Sir y Fflint Bolisi Teg ar Ddyledion, sy'n hawdd cael mynediad ato a'i lawrlwytho o wefan y cyngor.¹⁴
- Mae tudalen 'Y Dreth Gyngor a Budd-daliadau' Cyngor Casnewydd¹⁵ yn rhestru'r mathau o gymorth sydd ar gael cyn rhoi disgrifiad o gamau gorfodi, er mwyn pwysleisio rôl y cyngor wrth ddarparu cymorth.

¹⁴ Gwefan Cyngor Sir y Fflint: <https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Council-Tax/Fair-Debt-Policy.pdf>

¹⁵ Gwefan Cyngor Casnewydd: <https://www.newport.gov.uk/cy/Council-Tax-Benefits/Council-tax--benefits.aspx>

- Ceir opsiwn i wneud cais am gymorth Treth Gyngor yn ôl disgrisiwn o dan Adran 13A ar dudalen Treth Gyngor Cyngor Bro Morgannwg.¹⁶
- Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig cyfleuster sgwrsio byw y gellir mynd ato'n uniongyrchol o'r dudalen 'Problemau talu treth y cyngor'.
- Mae gan Gyngor Caerdydd dudalen gymorth Costau Byw, sy'n cynnwys opsiynau yn ôl y math o gymorth y gallai'r preswlydd fod ei angen. Mae Ffigwr 7 yn dangos hyn.

Ffigwr 7: Enghraifft oddi ar wefan Cyngor Caerdydd gyda llwybrau cymorth wedi'u diffinio yn ôl y math o gymorth sydd ei angen



5.23 Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf o wefannau cynghorau yng Nghymru ym mis Mehefin 2022. Wrth ailymweld â gwefannau ym mis Tachwedd 2022, gwelwyd newid o ran yr wybodaeth a ddarperir ynghylch cymorth. Mae gan nifer fawr o gynghorau hwb 'costau byw' erbyn hyn. Mae hwn yn dwyn ynghyd gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am gymorth â dyledion gyda chymorth â chyflogaeth, cyfleustodau, bwyd a chostau iechyd, a chymorth argyfwng. Mae'r enghraifft yn Ffigwr 8 yn dangos y dull hwn yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Abertawe.

¹⁶ Gwefan Cyngro Bro Morgannwg: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/council_tax/Council-Tax-Remission-Section-13A.aspx

5.24 Mae'r cymorth gan gynghorau ar gyfer preswylwyr o ganlyniad i'r argyfwng costau byw yn gyson â'r amcanion ar gyfer cyfeirio a hygyrchedd sydd yn y Protocol Treth Gyngor, hyd yn oed lle nad oes modd cyrraedd yr wybodaeth hon yn uniongyrchol o dudalennau gwe Treth Gyngor.

Ffigur 8: Enghraifft oddi ar y dudalen Costau Byw ar wefan Cyngor Abertawe

The screenshot shows the 'Cymorth Costau Byw' page on the Abertawe Council website. The page is organized into a grid of 24 categories, each with a title and a brief description of the support available. The categories are:

- Lleoedd Llesol Abertawe**: Lleodded yn Abertawe sy'n cynnig croeso cynnes i breawylwyr yr hydref ar gaeaf hiw.
- Taliadau Costau Byw ar gael**: Mae taliadau ar gael gan lywodraethau Cymru ar DU i helpu gyda chostau byw.
- Costau ynni a biliau cartref**: Cefnogaeth a chynghor ar dalu eich biliau ynni a biliau eraill y cartref.
- Gweithio Abertawe**: Chwilio am waith? Gallwch eich helpu chi.
- Dyled a phryderon ariannol**: Y peth pwysaef i'w ystyried os ydych yn eiddo h'n anodd yn ariannol yw a ydych yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych nawr i'w ddynt.
- Bwyd ac eitemau hanfodol**: Dangyfnodwch ble y gallwch gael mynediad at fwyd am ddim ac eitemau hanfodol eraill fel cynhyrion mislif.
- Tai**: Mae cymorth ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i rywfa i fyw, eich atal rhag dod yn ddigartref a'ch helpu gyda'ch ment a biliau eraill.
- Costau ysgol**: Mae cymorth ar gael ar gyfer popeth sydd eiddo angen ar eich plant yn ar gyfer yr ysgol.
- Teithio a chlydiant**: Mae gostyngiadau ar gael ar gyfer teithio ar ffysus a threilw. Rydym hefyd yn cynnig teithiau am ddim ar ffysus i bawb yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Cymorth Llywodraeth Cymru gyda chostau iechyd**: O broffon llywodraeth a sbectol i gostau teithio i'r ystyf. Bydd y ddolien hon yn mynd â chi i wefan Llywodraeth Cymru.
- Gofal plant**: Mae yna gymorth i'w ariannu gan y lywodraeth i helpu gyda gofal plant neu eiddo: fod eiddo eiddo eiddo nad ydych yn ymwybodol onori.
- Digwyddiadau a gweithgareddau**: Cymenwch glo ar sut y gallwch chi fwyhau gweithgareddau a digwyddiadau o amgylch Abertawe am ddim neu am gost isel.
- Swyddi**: Swyddi sydd ar gael gyda Chyngor Abertawe neu sefydliadau partneriaeth.
- Cynhyrion mislif am ddim**: Mae cynhyrion mislif am ddim ar gael mewn nifer o leoliadau o gwmpas Abertawe.
- Cydllynu Ardal Leol**: Dod o hyd i help a chefnogaeth yn eiddo cymuned.
- Wifi, cyfrifiaduron ac argraffu**: Mae pob un o'n llyfrgelloedd yn cynnig mynediad at wifi, cyfrifiaduron a gwasanaethau argraffu i seilwau llyfrgell.
- Addysg i oedolion - Dysgu Gydol Oes**: Mae ffloedd cyrsiau'n parhau i fod yn isel, £10 am dymor o 10 wythnos. Ni warentir cofrestrriad naa y bydd talied weddi dderbyn.
- Gweithred dwyllodrus**: Twyll yw cynllun sydd weddi greu i'ch twyllio i roi eiddo arian, eiddo manylion personol neu eiddo myddau. Mae'n anodd lawm i gael y rhain yn ddi os ydych weddi mol i dwyllwyr.
- Trysorau'r Tip**: Mae Bop Trysorau'r Tip yng Nghanolfan Allgylchu Llosgiant ac mae'n cynnig amgylchiad o eitemau, gan gynnwys caffi, offer trydanol, myddau cartref a dillad.
- Iechyd meddwl**: Cefnogaeth yn y gymuned i bobl sydd eiddo anghydweddi iechyd meddwl, eu taluedd a gofawyr.
- Trais yn y cartref**: Camdrin yn y cartref yw pan fo unigolyn yn ddiodef camdrin corfforol, seilwlogol, amgylchol, rhywiol neu ariannol gan bartner presennol, partner blaenorol neu seidd or teulu sy'n oedolyn.
- Cewynnau golchadwy**
- Ffynonellau cynghor a chefnogaeth pellach**
- Cymorth costau byw Llywodraeth Cymru**

6. Canfyddiadau: Effaith y Protocol Treth Gyngor

Tystiolaeth o effaith y Protocol Treth Gyngor o waith maes

- 6.1 Dywedodd mwyafrif y cynghorau a ymatebodd i'r arolwg fod y Protocol Treth Gyngor wedi bod yn effeithiol. Dywedodd nifer o gynghorau fod y mesurau hyn wedi cael eu rhoi ar waith cyn cyflwyno'r Protocol ac nad oeddynt wedi cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r Protocol - er eu bod yn effeithiol. Roedd cynghorau o'r farn mai'r elfennau mwyaf effeithiol oedd cyflwyno cysondeb ledled cynghorau Cymru a'r pwyslais ar ystyried pob opsiwn wrth geisio adennill dyled. Roedd cynghorau'n croesawu'r eglurder ynghylch gweithdrefnau ac arferion.

"Mae'r Protocol yn nodi'n glir y gweithdrefnau y dylai awdurdodau lleol ac asiantau gorfodi eu dilyn."

"Mae wedi gwneud pethau'n gliriach ynghylch y ffordd mae cynghorau'n gweithredu, er bod rhai sefydliadau allanol yn tueddu i bardduo cynghorau wrth sôn am gasglu Treth Gyngor."

(Ymatebion i'r arolwg gan gynghorau yng Nghymru)

Roedd un cyngor o'r farn fod y Protocol yn aneffeithiol ac yn ddiangen oherwydd bod y mesurau eisoes ar waith.

- 6.2 Nid oedd cynghorau o'r farn fod y Protocol Treth Gyngor wedi cael effaith ar y berthynas â sefydliadau trydydd parti sy'n cynorthwyo preswylwyr sydd mewn dyled neu galedi ariannol. Dywedodd nifer o gynghorau fod trefniadau cyfeirio da a chydweithio da gyda sefydliadau trydydd parti eisoes ar waith cyn cyflwyno'r Protocol. Roedd un cyngor o'r farn fod y Protocol Treth Gyngor wedi cael effaith negyddol ar y berthynas â'r ganolfan Cyngor ar Bopeth leol, gan fod Cyngor ar Bopeth yn disgwyl iddynt llynu'n gaeth wrth y Protocol ym mhob achos.

"Mae Cyngor ar Bopeth yn defnyddio'r Protocol i'n cyfarwyddo i gymryd camau penodol, hyd yn oed pan nad ydynt yn briodol. Mae rhai yn ei ddehongli fel deddfwriaeth. Gall hyn atal sgwrs agored a rhoi camsyniad o'r camau y gellid eu cymryd. Mae'n ymddangos bod y Protocol wedi niweidio'r berthynas â Cyngor ar Bopeth oherwydd eu natur ymosodol ynghylch y ffordd y dylem llynu wrth y Protocol."

Rydym yn gwneud hynny, ond rydym yn ystyried pob achos yn unigol gan gymryd agwedd gyfannol, yn hytrach na'i hystyried fel un ddyled."

(Ymateb i'r arolwg gan gynghorau yng Nghymru)

- 6.3 Yn gyffredinol, roedd sefydliadau trydydd parti yn cefnogi'r Protocol Treth Gyngor, ond yn dweud mai ychydig o effaith a gafwyd ar arferion casglu a gorfodi Treth Gyngor o ganlyniad i'w gyflwyno. Roeddynt yn cefnogi'r syniad o roi sail statudol i arferion casglu Treth Gyngor, neu gyflwyno canllawiau cryfach, er mwyn sicrhau cysondeb o ran arferion.

"[Rwy'n] cwestiynu pam mai cod gwirfoddol ydyw yn hytrach na gofyniad; mae angen ei wneud yn orfodol; i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud y ffordd gywir, yn y drefn gywir, gyda chymaint o dosturi â phosib. Mae statudol yn golygu cysondeb ac yn darparu ffordd i bobl gael cymorth."


(Mind Cymru)

Tystiolaeth ystadegol o effaith y Protocol Treth Gyngor

- 6.4 Ychydig o dystiolaeth ystadegol sydd ar gael o effaith y Protocol Treth Gyngor gan nad yw data ar orfodi a chasglu Treth Gyngor yn cael ei gasglu'n ganolog ac nid yw ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, ers cyflwyno'r Protocol yn 2019-2020, mae COVID-19 a'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar weithgarwch casglu Treth Gyngor. Er nad oes data cyhoeddus ar gael ar weithgarwch gorfodi, mae data ar gael ar swm y Dreth Gyngor sy'n cael ei dileu gan gynghorau, Efallai y byddai disgwyl i gynghorau sy'n dilyn y Protocol ac yn mynd ati i amlygu bregusrwydd ddileu mwy o ddyled Treth Gyngor o ganlyniad i beidio â chasglu gan breswylwyr bregus.
- 6.5 Dangosir y duedd yn swm y Dreth Gyngor a ddilëwyd dros amser yn Ffigwr 9. Ers cyflwyno'r Protocol, COVID-19 sydd wedi effeithio'n bennaf ar lefel y ddyled Dreth Gyngor sydd wedi cael ei dileu. Mae hyn yn dangos cwymp o 52% yn swm y ddyled Treth Gyngor a ddilëwyd rhwng 2019-2020 a 2020-2021, gyda chynnydd i ddilyn yn 2021-2022. Mae hyn yn debyg i'r patrwm yn Lloegr, lle bu lleihad o 24% yn y swm a ddilëwyd rhwng 2019-2020 a 2020-2021. Dywedodd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLHC) fod penderfyniadau rhai awdurdodau lleol i ddileu dyledion

Treth Gyngor "wedi cael eu dal yn ôl o ganlyniad i ohirio neu leihau camau gorfodi."¹⁷

Ffigwr 9: Treth Gyngor a ddilëwyd (pob blwyddyn) gan holl gynghorau Cymru 2017-18 hyd 2021-2022




(Ffynhonnell: StatsCymru, Cyfraddau casglu treth gyngor, yn ôl awdurdod bilio (£mil), wedi'u hidlo yn ôl math o incwm; symiau wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn.)

- 6.6 Nid yw'r patrwm o ran dileu dyled Treth Gyngor ers 2017 yn gyson ar draws y cynghorau. Mewn tri chyngor, bu cynnydd yn y ddyled Treth Gyngor a ddilëwyd (swm blwyddyn gyfan) rhwng 2019-2020 a 2020-2021. Mae'n debygol fod hyn yn adlewyrchu polisïau mewnol y cynghorau ac ymateb y cynghorau i'r tarfu ar fusnes o ganlyniad i COVID-19. Mae dileu dyled hanesyddol yn ddibynnol ar benderfyniadau ariannol o fewn cyngor, felly mae amrywiadau rhwng cynghorau'n ddisgwyliedig. Gall dileu dyled negyddol ddigwyddol pan fo Treth Gyngor a ddilëwyd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol yn cael ei adennill yn y flwyddyn gyfredol.

¹⁷ DLHC, Collection rates and receipts of Council Tax and non-domestic rates in England 2020-21 (Revised), 2021

Ffigwr 10: Treth Gyngor a ddilëwyd gan gynghorau yng Nghymru 2017-2018 hyd 2021-2022




(Ffynhonnell: StatsCymru, Cyfraddau casglu treth gyngor, yn ôl awdurdod bilio (£mil), Symiau wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn)

6.7 Mae cyfran y Dreth Gyngor a ddilëwyd yn 2021-2022 (swm blwyddyn gyfan), fel cyfran o'r ddyled Dreth Gyngor am y flwyddyn, yn eithaf cyson ar draws cynghorau yng Nghymru. Yn 2022-2022, 3.12% oedd cyfran gyfartalog y Dreth Gyngor a ddilëwyd fel cyfran o gyfanswm y debyd Treth Gyngor am y flwyddyn. Yr amrediad ar draws cynghorau Cymru oedd -0.98% i 12.8%. Sir y Fflint oedd yr unig gyngor a oedd yn sylweddol wahanol i'r gweddill,¹⁸ gyda lefel y Dreth Gyngor a ddilëwyd yn cynrychioli 12.8% o gyfanswm y debyd Treth Gyngor am y flwyddyn.

¹⁸ Sir y Fflint Z = 3.46, lefel gritigol Z = 2.76. P<0.05.

Ffigwr 11: Treth Gyngor a ddilëwyd fel cyfran o gyfanswm y ddyled Treth Gyngor am y flwyddyn 2021-2022 ar gyfer holl gynghorau Cymru




(Ffynhonnell: StatsCymru, Cyfraddau casglu treth gyngor, yn ôl awdurdod bilio (£mil), treth gyngor a gasglwyd o fewn y flwyddyn, symiau wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn)

- 6.8 Mae'r amrywiad yn y tueddiadau dros amser yn swm y Dreth Gyngor a ddilëwyd ar draws cynghorau yn awgrymu fod cyflwyno'r Protocol Treth Gyngor yn 2019 wedi cael effaith fach iawn ar lefel y ddyled a ddilëwyd. Mae sbardunau mwy, megis COVID-19, yr argyfwng costau byw a phenderfyniadau mewnol gan gynghorau ynghylch dyled hanesyddol, yn taflu cysgod dros unrhyw effaith o ganlyniad i gyflwyno'r Protocol.
- 6.9 Ceir cydberthynas wan¹⁹ rhwng cyfran y Dreth Gyngor a ddilëwyd yn 2021-2022 a'r sgôr ar gyfer dangosyddion ar wefannau o gydymffurfiaid â'r Protocol (ceir rhagor o wybodaeth ynghylch sgorio yn yr adran Fethodoleg). Lle ceir amcanion penodol gan y cyngor i gefnogi preswylwyr bregus, mae'n debygol y gwelir canlyniadau o ran bod yr wybodaeth a ddarperir ynghylch cymorth yn dda a bod y lefel dileu dyled ar gyfer preswylwyr bregus yn uwch.

¹⁹ ($r=.40$)

Ffigwr 12: Y berthynas rhwng cyfran y Dreth Gyngor a ddilëwyd a dangosyddion ar wefannau o gydymffurfiaid â'r Protocol



(Ffynhonnell: Dangosyddion ar wefannau o gydymffurfiaid â'r Protocol o arolwg o wefannau holl gynghorau Cymru. Cyfran a ddilëwyd - o set ddata StatsCymru; Cyfraddau casglu treth gyngor, yn ôl awdurdod bilio (£mil), Treth Gyngor a gasglwyd o fewn y flwyddyn a symiau wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn)

- 6.10 Mae'r berthynas wan rhwng dyled Treth Gyngor a ddilëwyd a'r dangosyddion eraill o gydymffurfiaid â'r Protocol Treth Gyngor hefyd yn debygol o adlewyrchu bod dileu oherwydd bregusrwydd yn cynrychioli cyfran fechan yn unig o'r Dreth Gyngor a ddilëwyd. Mae'r arolwg o gynghorau yng Nghymru yn cadarnhau hyn. Dywedodd cynghorau mai'r prif reswm dros ddileu dyled Treth Gyngor oedd pan nad oes modd pellach o'i chasglu, a phrif achos hynny yw marwolaeth y dyledwr. Ymddengys mai ychydig iawn o ddyled Treth Gyngor sy'n cael ei dileu o dan bwerau Adran 13A. Dau gyngor yn unig a gyfeiriodd at fregusrwydd ac amgylchiadau eithriadol Adran 13A fel prif reswm dros ddileu Treth Gyngor.
- 6.11 Mae'r Protocol Treth Gyngor yn disgwyl i gynghorau ddefnyddio'u pŵerau Adran 13A i ddileu Treth Gyngor mewn achosion o galedi eithriadol. Dywedodd dwy ran o dair o'r cynghorau a ymatebodd i'r arolwg fod gan y cyngor bolisi ysgrifenedig ar Adran 13A. Fodd bynnag, nid oedd yr un cyngor wedi diweddarau'r polisi hwn wedi i'r Protocol Treth Gyngor gael ei gyflwyno. Ymddengys bod y defnydd a wneir o ryddhad yn ôl disgrisiwn o dan Adran 13A yn amrywio'n sylweddol rhwng cynghorau. Dywedodd rhai cynghorau bod rhaid i'r amgylchiadau fod yn eithafol er

mwyn bod yn gymwys am y rhyddhad. Mewn rhai polisïau Adran 13A, nid yw unigolion sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd DWP wedi'u cynnwys, nac unigolion sydd â'r hawl i fudd-daliadau ond ddim yn eu hawlio hyd y gwelir. Roedd cynghorau eraill yn cynnwys diffiniadau llawer ehangach, gan gynnwys caledi, bregusrwydd neu argyfwng. Dywedodd dau gyngor nad oedd amgylchiadau eithriadol yn cael eu diffinio, a bod hynny'n fwriadol, er mwyn caniatáu i'r cyngor wneud dyfarniadau unigol yn ôl disgrisiwn ar sail bregusrwydd, caledi ac atal niwed.

7. Crynodeb o'r Canfyddiadau

Prif ganfyddiadau: Gweithredu Protocol Treth Gyngor Cymru

- 7.1 Yn ôl y cynghorau, ceir lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r Protocol Treth Gyngor.
- 7.2 Ychydig o newid sydd wedi bod o ran dull gweithredu cynghorau ar gyfer casglu a gorfodi Treth Gyngor o ganlyniad i'r Protocol Treth Gyngor. Dywedodd y mwyafrif o'r cynghorau fod mesurau a geir yn y Protocol eisoes ar waith cyn cyflwyno'r Protocol yn 2019.
- 7.3 Roedd cynghorau o'r farn fod ganddynt berthynas dda ag asiantau gorfodi, fel yr hyn a nodir yn y Protocol. Roedd pob cyngor o'r farn fod eu hasiantau gorfodi yn amlygu bregusrwydd ac yn gweithredu'n briodol mewn ymateb i angen pan ddaw i'r amlwg.
- 7.4 Dywedodd bob cyngor fod ganddo brosesau ar waith ar gyfer cefnogi neu gyfeirio wedi i angen gael ei amlygu. Yn gyffredinol, roeddynt yn dweud bod y trefniadau hyn ar waith cyn cyflwyno'r Protocol.
- 7.5 Roedd Sefydliad Bevan, Cyngor ar Bopeth Cymru a Mind Cymru yn bryderus fod diffyg cysondeb o ran arferion yn parhau i fodoli rhwng cynghorau ac o fewn cynghorau. Nodwyd bod diffyg cysondeb i'w weld mewn sawl agwedd, gan gynnwys parodrwydd i wneud trefniadau sy'n addas i'r dyledwr, llymder y camau gorfodi, amlygu angen am gymorth (yn enwedig Gostyngiadau Treth Gyngor), a defnyddio data i amlygu preswylwyr bregus.
- 7.6 Mae'r ffactorau sy'n gallu creu rhwystr rhag gweithredu'r Protocol Treth Gyngor yn cynnwys:
- Deddfwriaeth sydd wedi dyddio ar gasglu a gorfodi
 - Rhannu data
 - Pwysau wrth geisio cynnal cyfraddau casglu o fewn y flwyddyn
 - Diffyg hyfforddiant ac arweiniad
 - Trefniadaeth fewnol cyngor.

- 7.7 Nid yw gwefannau rhai cynghorau yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Protocol Treth Gyngor. Mae llai na hanner y cynghorau yng Nghymru yn darparu gwybodaeth sy'n cyfeirio at gymorth â dyledion neu gymorth ariannol.
- 7.8 Ceir tystiolaeth o arferion da gan nifer o gynghorau yng Nghymru o ran mynediad at drefniadau cymorth ar wefannau. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau: Effaith Protocol Treth Gyngor Cymru

- 7.9 Yn gyffredinol, roedd y cynghorau'n dweud fod y mesurau a geir yn y Protocol Treth Gyngor eisoes ar waith, felly nid oedd cyflwyno'r Protocol wedi cael llawer o effaith ar weithgarwch casglu a gorfodi. Fodd bynnag, roedd cynghorau o'r farn fod y Protocol wedi bod yn effeithiol yn gyffredinol. Yr elfen fwyaf defnyddiol i gynghorau oedd yr eglurder ynghylch gweithdrefnau.
- 7.10 Yn gyffredinol, nid oedd cynghorau'n teimlo bod angen iddynt newid eu perthynas â sefydliadau trydydd parti neu asiantau gorfodi yn sgil y Protocol Treth Gyngor. Roedd perthnasoedd a chysylltiadau priodol eisoes ar waith cyn cyflwyno'r Protocol. Roedd cynghorau o'r farn fod gan eu hasiantau gorfodi fesurau priodol ar waith i amlygu bregusrwydd ac ymateb yn briodol i hynny.
- 7.11 Roedd sefydliadau trydydd parti yn gefnogol o'r Protocol ond o'r farn nad oedd wedi cael llawer o effaith ar weithgarwch casglu a gorfodi mewn cynghorau.
- 7.12 Ychydig o dystiolaeth ystadegol sydd ar gael o effaith y Protocol Treth Gyngor. Mae hyn yn bennaf oherwydd y diffyg data sydd ar gael ar weithgarwch gorfodi a'r ffaith fod COVID-19 a'r argyfwng costau byw yn taflu cysgod dros yr effaith. Er hyn, ceir cydberthynas wan rhwng dangosyddion ar wefannau o gydymffurfiad â'r Protocol a dileu dyled Treth Gyngor.
- 7.13 Yn gyffredinol, nid yw cynghorau wedi diwygio eu polisiâu S13A i adlewyrchu'r mesurau yn y Protocol Treth Gyngor. I rai cynghorau, efallai fod hyn oherwydd bod y mesurau hyn eisoes yn rhan o bolisi S13A y cyngor. I gynghorau eraill, mae hyn oherwydd bod eu polisi S13A â diffiniadau caeth iawn.

8. Casgliad

- 8.1 Yn ôl cynghorau a sefydliadau trydydd parti, ychydig o newid sydd wedi bod o ran gweithgarwch casglu a gorfodi Treth Gyngor o ganlyniad i'r Protocol Treth Gyngor. Roedd y mwyafrif o'r cynghorau o'r farn fod y mesurau a geir yn y Protocol eisoes ar waith o fewn eu cyngor cyn cyflwyno'r Protocol. Roedd y rhain yn cynnwys arferion yn ymwneud ag amlygu bregusrwydd, gweithio gyda sefydliadau trydydd parti neu rôl asiantau gorfodi wrth amlygu bregusrwydd.
- 8.2 Mae gwahaniaeth mawr rhwng profiad sefydliadau trydydd parti a phrofiad cynghorau o ran lefel y cydymffurfiaeth â'r Protocol Treth Gyngor. Darparodd nifer o sefydliad trydydd parti dystiolaeth o ddiffyg cysondeb rhwng cynghorau ac o fewn cynghorau. Mae tystiolaeth o'r gwaith ymchwil hwn yn dangos diffyg cysondeb ar draws cynghorau mewn nifer o agweddau, gan gynnwys llymder camau gorfodi, parodrwydd i wneud trefniadau talu, amlygu bregusrwydd drwy ddata, cydymffurfiaeth â'r Protocol ar wefannau a'r defnydd a wneir o ddisgresiwn S13A.
- 8.3 Ceir nifer o ffactorau sy'n creu rhystr rhag gweithredu'r Protocol Treth Gyngor yn well. Mae'n bosib y gellir goresgyn rhai o'r rhain drwy rannu arferion da. Er enghraifft, mae lefel y rhannu data a wneir yn fewnol a'r gwaith i amlygu unigolion a allai dderbyn Gostyngiad Treth Gyngor yn amrywio'n sylweddol o un cyngor i'r llall, neu ddiweddarau gwefannau i gynnwys mesurau Protocol. Efallai ei bod hi'n fwy heriol ceisio goresgyn rhystrau eraill a bod angen newid deddfwriaethol er mwyn gwneud hynny. Er enghraifft, hwyluso rhagor o rannu data rhwng sefydliadau, neu ar draws adrannau'r cyngor, a'r angen i ddiweddarau deddfwriaeth ar gasglu a gorfodi.
- 8.4 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod yna rwystrau diwylliannol a sefydliadol rhag diwygio arferion casglu ar gyfer preswylwyr bregus mewn rhai cynghorau. Mae'r amrywiadau o ran darparu cymorth ar wefannau, darpariaeth S13A, a'r gydberthynas rhwng dileu dyled a thystiolaeth o gydymffurfio â'r Protocol ar wefannau (er mai cydberthynas wan yw honno) yn dangos hyn. Roedd y cynghorau'n amrywio'n sylweddol o ran faint yr oeddynt yn credu bod cymorth i bobl fregus yn rhan o weithgarwch casglu. Gall nifer fawr o bethau fod yn gyfrifol am y gwahaniaeth hwn - pethau megis safbwynt y cyngor ar ei rôl wrth gefnogi

aelwydydd incwm isel, pwysau i gynnal cyfraddau casglu o fewn y flwyddyn, a threfniadaeth adrannol sy'n rhwystro dull mwy cydlynol o weithio. O ystyried y pwysau sydd ar gynghorau i gynnal gwasanaethau a'r tebygolrwydd y bydd eu llwyth gwaith yn cynyddu oherwydd nifer y preswylwyr sy'n ei chael hi'n anodd talu Treth Gyngor, nid yw'n syndod fod rhai cynghorau'n canolbwyntio i raddau helaeth ar gasglu yn hytrach na chymorth.

- 8.5 Mae tystiolaeth amlwg o arferion da mewn llawer o gynghorau. Mae nifer o gynghorau'n nodi'n glir ar eu gwefan eu bod yno i gynorthwyo preswylwyr sy'n wynebu caledi ariannol. Mae rhai cynghorau'n ymateb i'r argyfwng costau byw gyda hybiau ar wefannau, sy'n cyfeirio preswylwyr at y cymorth sydd ar gael. Er na chafodd yr hybiau hyn eu cyflwyno mewn ymateb i'r Protocol, maent yn sicr yn cefnogi mesurau'r Protocol.
- 8.6 Bydd pob cyngor yn canolbwyntio ar ei arferion ei hun, ac o fewn y cyngor efallai yr ystyrir bod y rhain yn ddigonol er mwyn glynu wrth y Protocol Treth Gyngor. Rhywbeth gwirfoddol yw chwilio am arferion da a'u rhoi ar waith. Os yw Llywodraeth Cymru a chynghorau Cymru yn dymuno sicrhau dull cyson ar gyfer gorfodi a chasglu Treth Gyngor, efallai fod angen fframwaith deddfwriaethol ar gyfer hyn. Os nad yw hyn yn bosib neu os nad oes dymuniad i'w gael, efallai y byddai canllawiau manylach yn ddefnyddiol. O gofio'r pwysau sydd ar gynghorau, mae'n debygol y bydd goblygiadau o ran adnoddau os bydd newid yn cael ei weithredu.

9. **Argymhellion**

- 9.1 Dylai cynghorau sicrhau bod pob gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cymorth i rai sydd mewn trafferthion ariannol neu sy'n fregus. Dylai gwefannau gynnwys y rhestr gyflawn o ddulliau cymorth posib, gan gynnwys gostyngiadau S13A. Gallai fod yn ddefnyddiol adolygu'r llwybr at gymorth er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn rhwydd. Mae'r dryswch ynghylch llwybrau at ddisgownt, eithriadau a Gostyngiad Treth Gyngor yn creu rhwystrau rhag cael gafael ar wybodaeth berthnasol.
- 9.2 Dylai cynghorau adolygu'r ffordd maent yn defnyddio data a geir drwy gyfleuster rhannu data y DWP. Gellir defnyddio hwn i ddyfarnu Gostyngiad Treth Gyngor yn awtomatig neu i ymgysylltu â chartrefi sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a gwahodd ceisiadau am Ostyngiad Treth Gyngor. Wrth gasglu a gorfodi, gellid defnyddio'r data hwn i ddangos y bobl sy'n methu â thalu, yn hytrach na'r rhai sy'n gwrthod talu.
- 9.3 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellir diwygio deddfwriaeth casglu a gorfodi fel nad yw cynghorau'n gorfod glynu wrth lwybr gweithgarwch gorfodi penodol.
- 9.4 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau Cymru i bennu data y byddai'n ddefnyddiol ei rannu o fewn y cyngor a rhwng sefydliadau sy'n gallu cynorthwyo i amlygu preswylwyr a allai fod angen cymorth. Mae'n bosib y bydd angen deddfwriaeth ychwanegol ar gyfer rhannu data.
- 9.5 Dylai cynghorau adolygu eu polisïau S13A er mwyn iddynt fod yn gyson â'r mesurau yn y Protocol Treth Gyngor.
- 9.6 Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno ceisio sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran casglu a gorfodi Treth Gyngor, dylai weithio gyda chynghorau Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth bresennol neu ystyried cyflwyno deddfwriaeth ar weithgarwch casglu a gorfodi.

10. **Atodiadau**

Atodiad 1: Methodoleg Gwaith Maes

Defnyddiodd M·E·L Research arolwg ar-lein gyda chynghorau yng Nghymru gan ddefnyddio Forsta Plus i gasglu barn. Cysylltwyd â chyfranogwyr fel aelod o Grŵp Refeniw a Budd-daliadau Cymru neu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel aelod o staff sy'n ymwneud â chasglu Treth Gyngor neu gefnogi preswylwyr bregus. Gwahoddwyd pobl o'r ddau lwybr hyn i gymryd rhan drwy e-bost, gyda dolen at yr arolwg ar-lein. Roedd cyfranogiad yn wirfoddol a'r atebion yn ddiennw. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Awst a mis Medi 2022.

Cynhaliwyd cyfweiliadau trydydd parti gan M·E·L Research gyda detholiad o sefydliadau sy'n ymwneud ag un neu ragor o bedwar ymyriad Treth Gyngor. Dewiswyd chyfranogwyr posib gan ddefnyddio ffynonellau cyhoeddus (e.e. gwefannau sefydliadol, LinkedIn) ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyfweiliad ar-lein. Cyfweiliadau lled-strwythuredig oedd y rhain a fe'u cynhaliwyd o bell (drwy Teams). Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng mis Awst a mis Hydref 2022.

Y cynghorau a gymerodd ran

Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg, Wrecsam.

Swyddi'r swyddogion cyngor a ymatebodd

Swyddog Adennill, Arweinydd Corfforaethol Trethu a Dyled, Rheolwr Treth Gyngor, Rheolwr Gorfodaeth, Pennaeth Refeniw, Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth Gwasanaeth (Refeniw a Budd-daliadau), Rheolwr Incwm a Dyfarniadau, Rheolwr Casglu Incwm, Rheolwr Gweithredol, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw, Rheolwr Refeniw, Uwch-arweinydd Tîm Treth Gyngor, Rheolwr Darparu Gwasanaeth, Rheolwr Gwasanaeth Refeniw, Rheolwr Treth.

Atodiad 2: Arolwg cynghorau Cymru - cwestiynau'n ymwneud â'r Protocol Treth Gyngor

Eich cefndir

1. Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?
2. Beth yw teitl eich swydd?

Dealltwriaeth o'r ymyriadau

3. Faint fydddech chi'n dweud eich bod yn ei wybod am y Protocol Arfer Dda ar gyfer Treth Gyngor? Llauer iawn/Cryn dipyn/Ychydig iawn/Dim o gwbl
- 3a. Ydych chi'n teimlo bod arnoch angen hyfforddiant neu wybodaeth ychwanegol ynghylch y Protocol Arfer Dda ar gyfer Treth Gyngor? Ydw/Nac ydw

Cwestiynau ynghylch y Protocol arfer dda

4. I ba raddau mae eich cyngor yn dilyn y Protocol arfer dda? I raddau helaeth / Yn rhannol / Dim o gwbl / Ddim yn gwybod
5. Pa hyfforddiant ydych chi wedi'i gael ar ddefnyddio a chymhwyso'r Protocol arfer dda?
6. Sut mae'r Protocol arfer dda wedi dylanwadau ar y ffordd rydych yn amlygu ac yn cefnogi dyledwyr bregus?
7. A fu unrhyw newid yn eich perthynas ag asiantaethau trydydd parti, megis elusennau arbenigol, o ganlyniad i'r Protocol arfer dda?
8. I ba raddau y bydddech yn dweud bod y Protocol arfer dda wedi newid y ffordd y mae eich awdurdod lleol yn casglu ac yn gorfodi'r Dreth Gyngor? (I raddau helaeth / I ryw raddau / Ychydig / Dim o gwbl)
9. Sut fydddech chi'n sgorio ymdrechion eich awdurdod lleol i hyrwyddo'r defnydd o'r Protocol arfer dda?
10. Beth, os o gwbl, sydd wedi cefnogi rhoi'r Protocol arfer dda ar waith?

11. Pa rwystrau, os o gwbl, ydych chi wedi'u hwynebu wrth roi'r Protocol arfer dda ar waith?
12. Beth fyddai eich asiantau gorfodi yn ei wneud petaent yn dod ar draws unigolyn a allai fod yn fregus?
13. Yn eich barn chi, beth yw elfen fwyaf effeithiol y Protocol arfer dda?
14. Yn eich barn chi, beth yw elfen leiaf effeithiol y Protocol arfer dda?
15. Pa effaith, os o gwbl, mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar yr ymyriad hwn?

Cwestiynau ynghylch disgrisiwn Adran 13A a dileu dyledion

16. I ba raddau, os o gwbl, y mae eich awdurdod lleol yn defnyddio eich disgrisiwn o dan Adran 13A i leihau swm y dreth sy'n daladwy? (I raddau helaeth / I ryw raddau / Ychydig / Dim o gwbl / Ddim yn gwybod)
17. A oes gennych chi bolisi neu arweiniad ar ddefnyddio disgrisiwn o dan Adran 13A?
18. O dan ba amgylchiadau fydddech chi fel arfer yn defnyddio'r disgrisiwn hwn i leihau'r dreth sy'n daladwy?
19. A oes gennych chi bolisi neu arweiniad ar ddileu ôl-ddyledion Treth Gyngor?
20. O dan ba amgylchiadau fydddech chi fel arfer yn dileu ôl-ddyledion Treth Gyngor?
21. Pa effaith, os o gwbl, mae'r pandemig COVID-19 wedi'i chael ar y defnydd o ddisgrisiwn o dan Adran 13A neu ddileu dyledion?